# Y GROES



Tynnwch linell o dop darn o bapur i'w waelod ac un arall ar ei draws tuag un rhan o dair y ffordd i lawr a dyna chi wedi tynnu llun croes, un o'r sumbolau mwyaf pwerus yn y byd. Fedrwch chi ddim dianc rhagddi. Mae yn pob man – yn capeli ac eglwysi, yn ein cartrefi ac ar dvd's. Rydym yn ei gwisgo – fel clustdlysau, ar gadwyn neu wedi ei phwytho ar ledr neu ddenim. Beth fyddai Coca Cola neu McDonalds yn ei wneud i fod yn berchen ar logo y byddai miliynau o bobl yn ei wisgo bob dydd?

Mae'r groes y cafodd Iesu Grist ei chroeshoelio arni wedi bod yn sumbol o Gristnogaeth byth oddi ar hynny. Ond pam ydyn ni'n parhau i'w gwisgo? Ofergoeledd, ffasiwn neu ffydd?

O dan eu crysau y byddai eglwyswyr yn gwisgo croes ychydig flynyddoedd yn ôl ond erbyn hyn mae'n ffasiynol i hi fod yn y golwg. Yn ôl yr hanesydd Ann Wroe, 'Does gen i ddim yn erbyn i'r groes fod yn ddarn o emwaith ond, yn fy marn i, os nad ydych yn gwybod y cefndir neu os ydych yn ei gwisgo dim ond am ei bod yn edrych yn dda gyda dilledyn penodol mae'n droëdig. Wedi'r cyfan mae iddi arwyddocad byd eang.'

Dywed y gohebydd ffasiwn, James Sherwood, ar y llaw arall, 'Pan fyddwch chi'n gweld enwogion fel Catherine Zeta Jones, Lisa Minnelli a Renée Zellweger yn gwisgo croes dydw i ddim yn meddwl ei fod yn gyfangwbwl seciwlar. Yn fy marn i maen nhw'n ei ystyried fel talisman, rhyw bŵer gwarchodol. Mae hefyd yn creu'r argraff fod y merched yn dduwiol.'

Cred Campbell Gillespie ei fod bron â chael ei ladd oherwydd y groes aur a gafodd gan ei famgu ond bod y groes hefyd wedi arbed ei fywyd. Roedd yn rhedeg un bore yn 2003 pan gafodd ei daro gan fellten. Trawodd y fellten y groes oedd am ei wddw gan ei godi chwe troedfedd i'r awyr. Glaniodd ar ei wyneb ar y concrit a stopiodd anadlu. Llwyddodd ei ffrindiau i'w gael i anadlu eto cyn iddo gael ei gario i'r ysbyty. Roedd y groes ar y llawr heb farc o gwbwl arni. 'Dydw i ddim wedi gwisgo'r groes wedyn,' meddai Gillespie, 'ond efallai y gwna i ryw ddiwrnod pan fydd gen i fwy o hyder ynddi.'

Mae'r gred fod y groes yn cadw'r diafol draw yn hen gred. Ar y dechrau byddai Cristnogion yn gwneud arwydd y groes gyda'i dwylo wrth godi yn y bore, eistedd i fwyta, cychwyn ar siwrne a mynd i'r gwely. Mae'r groes i'w gweld mewn gwahanol ddeunyddiau. Mae'r arlunydd George Heslop wedi bod yn arddangos croesau siocled ers 10 blynedd. Dadleua fod hyn yn ei helpu i ddychwelyd i ffydd ei blentyndod ac nad yw yn bychanu Cristnogaeth.

Mae artistiaid wedi hen arfer tynnu sylw atynt eu hunain ond a ydyn nhw'n mynd yn rhy bell trwy ddefnyddio'r groes? Creodd Andre Serrano, yr arlunydd Americanaidd, dipyn o stŵr pan osododd groes mewn jar o'i iwrin ei hun. A Sarah Lucas yn yr un modd pan greodd Grist ar y groes mewn maint llawn allan o sigarennau.
Y gwir amdani ydy, dim ots pa mor boblogaidd ydy'r groes rydym yn dal i'w pharchu ac felly mae ei chamddefnyddio yn achosi pryder ac yn gwneud i ni deimlo'n anghyfforddus.